

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 14 Rhagfyr, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorydd E. Goodjohn (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, Dr. I.J. Johnson, B. Loveluck-Edwards and N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Councillors I. Buckley, L. Burnett ((Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) , C.E.A. Champion, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd S.J. Haines.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD: GWELLA LLES YN Y GWEITHLE.

ARGYMHELLWYD – Nodi'r cyflwyniad ar Wella Lles yn y Gweithle.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CH2 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2022/2023
(CYF) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.
- (2) Ar gyfer adrodd absenoldeb salwch yn y dyfodol, bod y pwyntiau a'r materion pwysicaf, yn ogystal â'r dadansoddiad cysylltiedig, yn cael eu cynnwys yn amlwg yng Nghrynodeb y Weithrediaeth a Materion Allweddol i'w Hystyried yr adroddiad, gyda'r tablau a'r siartiau cysylltiedig i'w cynnwys mewn atodiad neu atodiadau ar wahân.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn helpu i roi mwy o eglurder i Aelodau'r Pwyllgor wrth ystyried adroddiadau salwch yn y dyfodol drwy dynnu sylw at y meysydd allweddol ar gyfer eu sylw, gyda chefnogaeth y dadansoddiad perthnasol mewn fformat mwy hygyrch.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU
CORFFORAETHOL (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ar y gwaith a wnaed i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.

EITEM AGENDA 7. DIWEDDARIAD PLATFFORM CYFARFOD CIVICO
HYBRID (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ar y diweddariad a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd.

EITEM AGENDA 8. ADRODDIAD CANOL TYMOR RHEOLI'R TRYSORLYS (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2023/24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.
- (2) Rhoi i'r Aelodau Etholedig wybodaeth yn amlinellu nifer yr eiddo gwag a'r ail gartrefi, yn ôl ward, ym Mro Morgannwg.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.
- (2) Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau Etholedig am anheddau gwag o fewn ardaloedd eu wardiau fel rhan o'r ymgynghoriad.

EITEM AGENDA 10. CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft sydd yn Atodiad A adroddiad y Cabinet.
- (2) Nodi'r dull ymgynghori a'r amserlen yn ogystal â'r dull a ddefnyddiwyd hyd yma i ddrafftio'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r berthynas â Chynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, fel y nodir yn yr adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ar gyfer 2023-24.

EITEM AGENDA 11. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI
BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- (2) Nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd lle mae tanberfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 12. ADRODDIAD CRAFFU CYNLLUN LLESIANT DRAFFT
BGC (CAC) -

ARGYMHELLWYD –

- (1) Rhoi'r adborth canlynol ar y Cynllun Lles drafft i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar ôl cyfeirio i'r Cabinet:
 - Yr angen i sicrhau bod Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cael eu hadrodd yn gywir fel rhan o Gynllun Lles y BGC.
 - Pwysigrwydd sefydlu amcanion, targedau, a chanlyniadau mesuradwy a chilir er mwyn gallu asesu a mesur y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y Cynllun Lles yn iawn dros ei oes.
 - Canfod a fyddai'r BGC yn gwneud Dogfen Myfyrdodau (2017 i 2022) i werthuso cyfnod olaf y Cynllun Lles, er mwyn gweld yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn sydd heb, ac i'r Pwyllgor gael golwg ar hyn.
- (2) Gwahodd aelodau'r BGC i siarad â'r Aelodau Etholedig ynglŷn â'u gwaith a'u prosiectau allweddol, ac i godi mwy o ymwybyddiaeth o'r BGC a'r Cynllun Lles.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu i roi adborth ar Gynllun Lles drafft y BGC fel rhan o'r broses ymgynghori ac i'r Cabinet fod yn ymwybodol o ystyriaethau'r Pwyllgor.
- (2) Er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith yr Aelodau Etholedig o waith y BGC a'i Gynllun Lles.